Rhif: **WG20174**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Polisi Llwybrau Dysgu 14–19: y ffordd ymlaen

Dyddiad cyhoeddi: **4 Tachwedd 2013**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **4 Rhagfyr 2013**

# Polisi Llwybrau Dysgu 14–19: y ffordd ymlaen

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn pobl ynglŷn â chyfeiriad y polisi Llwybrau Dysgu 14–19 yn y dyfodol, gan gynnwys hefyd ganfyddiadau adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen am ddarpariaeth gydweithredol leol yng Nghyfnod Allweddol 4. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **4 Rhagfyr 2013** fan hwyraf (rhowch 'Ymgynghoriad 14–19' yn y blwch pwnc). |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br>Y Gangen Cefnogi Pynciau 7–19<br>Is-adran y Cwricwlwm<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: 14-19@cymru.gsi.gov.uk |

© Hawlfraint y Goron 2013
WG20174

## Diogelu data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cyflwyniad

Ar 8 Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ei fod yn derbyn, neu'n derbyn mewn egwyddor argymhellion adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llwybrau Dysgu 14-19 Yr adolygiad o ddarpariaeth gydweithredol leol yng Nghyfnod Allweddol 4 (CA4) (Saesneg yn unig). Nododd hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynglŷn â'r argymhellion cyn cyflwyno unrhyw newidiadau deddfwriaethol.

Mae datganiad ysgrifenedig llawn y Gweinidog ac ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

## Cefndir

Yn 2012 cyhoeddodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad yn dilyn yr ymchwiliad i Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 a oedd yn diwygio Deddf Addysg 2002 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 ("y 'Mesur").

Argymhelliad y Pwyllgor oedd y dylid adolygu'r penderfyniad ei bod yn rhaid sefydlu o leiaf 30 o gyrsiau i ffurfio cynnig cwricwlwm lleol yn CA4. Roedd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn derbyn hyn.

Gofynnwyd i gynrychiolwyr y sectorau addysg perthnasol ddod at ei gilydd i fwrw ymlaen â'r adolygiad drwy gyfrwng Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Roedd y Grŵp yn cynnwys Penaethiaid Uwchradd, cynrychiolwyr o faes Addysg Bellach, Hyfforddiant yn y Gweithle, awdurdodau lleol, Gyrfa Cymru a'r cyflogwyr, ochr yn ochr ag Estyn fel sylwebwyr. Ceisiodd y Grŵp hefyd gyfraniad uniongyrchol gan gynrychiolwyr y rhwydwaith 14-19.

Cylch gorchwyl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen oedd adolygu cynnig cwricwlwm lleol CA4 a chyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru yn ei gylch. Yn benodol, gofynnwyd i'r Grŵp gyflwyno argymhellion ynglŷn â nifer y dewisiadau yn y dyfodol, gan ystyried:

- unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn sgîl cynnig dewis ehangach o gyrsiau;
- y cydbwysedd rhwng cyrsiau cyffredinol a chyrsiau galwedigaethol;
- i ba raddau mae cyrsiau ar gael mewn ardaloedd gwledig a'r effaith ar ysgolion llai ac ysgolion yng nghefn gwlad;
- yr effaith ar ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog;
- y berthynas â'r Adolygiad o Gludiant 14-19 a'r Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru;
- yr effaith bosibl ar gynaliadwyedd yn sgîl dod ag arian grant 14-19 i ben; a

- barn dysgwyr.

Fel rhan o'r adolygiad, bu'r Grŵp hefyd yn ystyried dilysrwydd y gofyniad i sicrhau hyn a hyn o bwyntiau fan leiaf wrth gynnig cwricwlwm lleol ar gyfer CA4 ac ar ôl 16 oed.

## Ble rydym arni nawr?

Prif amcan y Mesur, sy'n sail i'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19, yw gwella canlyniadau a chyrhaeddiad dysgwyr 14-19 drwy ddarparu ystod eang o gyrsiau. Mae'r rheoliadau presennol yn dweud ei bod yn rhaid i bob cwricwlwm lleol yn CA4 gynnwys o leiaf 30 o gyrsiau a sgorio o leiaf 780 o bwyntiau. Rhaid i hyn gynnwys o leiaf 5 cwrs astudio galwedigaethol sy'n sgorio o leiaf 260 o bwyntiau.

Ar gyfer dysgu ôl-16, mae 'na ofyniad hefyd yn y Canllawiau statudol ar y Cwricwlwm Lleol i Fyfyrwyr 16 - 18 oed i ddarparu o leiaf 30 o gyrsiau, a bod yn rhaid i 5 o'r rheini fod yn alwedigaethol, ond bod yn rhaid sgorio 1600 o bwyntiau. Nid oedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn argymell adolygu'r dewis cyrsiau sydd ar gael ar ôl 16 oed, ac, a chofio y bydd y Rhaglenni Meysydd Dysgu'n cael eu cyflwyno o fis Medi 2014 ymlaen ar gyfer dysgwyr ôl-16, y flaenoriaeth o hyd fodd sicrhau bod y datblygiadau hyn yn bwrw gwreiddiau dros y flwyddyn/blynyddoedd nesaf. Rhagwelir, fodd bynnag, y bydd dileu'r sgôr pwyntiau ar gyfer ôl-16 yn lliniaru'r pwysau ar ddarparwyr ôl-16 o fis Medi 2014 ymlaen, gan hwyluso'r pwyslais ar ansawdd y ddarpariaeth ôl-16.

Mae'r Mesur hefyd yn sicrhau y bydd pobl ifanc yn gallu manteisio ar wasanaethau cymorth i ddysgwyr a fydd yn eu helpu i oresgyn unrhyw rwystrau rhag dysgu. Drwy ddarparu ystod eang o gyrsiau a gwasanaethau cymorth i ddysgwyr i bobl ifanc, disgwylir y canlynol:

- bod cyrhaeddiad addysgol yn gwella yn CA4 ac ôl-16;
- bod llai o bobl ifanc yn ymadael ag addysg amser llawn heb ddim cymwysterau;
- bod nifer fwy o bobl ifanc yn camu ymlaen i addysg bellach; a
- bod llai o bobl 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Yn 2012, nododd y Gweinidog Addysg a Sgiliau, wrth ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru i effaith y Mesur, fod llawer o'r data ynghylch effaith dewis ehangach yn amhendant. Edrychodd y Grŵp annibynnol unwaith eto ar y dystiolaeth a oedd ar gael a chytuno ei bod yn anodd gweld achos ac effaith uniongyrchol rhwng cynnig dewis ehangach a gwell cyrhaeddiad. Serch hynny, casgliad y Grŵp oedd bod y dewis ehangach o gyrsiau ynghyd â chymorth i ddysgwyr yn CA4 (ill dau'n

elfennau allweddol o'r polisi Llwybrau Dysgu 14-19) yn cael dylanwad cadarnhaol, o ran helpu dysgwyr i fwrw iddi a chyflawni eu potensial.

## Pa newidiadau sy'n cael eu cynnig?

Cymeradwywyd y prif gynigion ar gyfer newid yr ydym yn ymgynghori yn eu cylch yn y papur hwn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen annibynnol.

Gan fod cynrychiolwyr o'r grwpiau rhanddeiliaid perthnasol wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â'r broses adolygu dros y naw mis diwethaf, mae'r ymgynghoriad hwn yn naturiol yn canolbwyntio ar geisio barn pobl am y trefniadau ar gyfer gwireddu'r newidiadau a gynigiwyd.  Fodd bynnag, mae lle ar ddiwedd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ichi gynnig sylwadau ychwanegol.

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn awgrymu bod lle i sicrhau mwy o gydraddoldeb ledled Cymru o ran profiadau dysgu CA4.  Yn benodol, mae rhai ysgolion ac ardaloedd rhai awdurdodau lleol yn wynebu anawsterau gweithredol wrth geisio darparu dewis ehangach o dan y trefniadau presennol.

Mae argymhellion y Grŵp yn dangos newid yn y polisi Llwybrau Dysgu 14-19 a fydd yn ceisio sicrhau cydbwysedd mwy priodol rhwng cynnig dewis i ddysgwyr ac ansawdd a pherthnasedd y dewisiadau dysgu a ddarperir yn CA4.  Maent hefyd yn cynnig y dylid diwygio'r polisi er mwyn ystyried y newidiadau sylweddol sydd wedi bod yn nhirwedd addysg Cymru dros y saith mlynedd diwethaf (e.e. yr Adolygiad o Gymwysterau a datblygiadau Bagloriaeth Cymru, y System Ariannu ôl-16 newydd, dirprwyo mwy o arian i ysgolion drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a rhoi rhagor o gymorth i ysgolion drwy gyfrwng gwaith y Consortia rhanbarthol).

Bydd angen diwygio dogfennau polisi Llwybrau Dysgu 14-19, y rhaglen a'r canllawiau statudol, a threfniadau cynllunio'r awdurdodau lleol / y Consortia a'r darparwyr dysgu er mwyn adlewyrchu newidiadau o'r fath.